

## Gwasanaethau Parcio Cyngor Abertawe Adroddiad Blynyddol 2018-19

### 1. Rhagarweiniad

- 1.1 Ar 1 Medi 2008 dynodwyd Cyngor Abertawe yn Ardal Gorfodi Sifil ar gyfer Tramgwyddau Parcio ac yn Ardal Gorfodi Arbennig gan Lywodraeth Cymru. Bu hyn yn tynnu'r cyfrifoldeb am orfodi tramgwyddau 'ar y stryd' oddi ar Heddlu De Cymru ac yn symud baich y cyfrifoldeb i'r Cyngor.
- 1.2 Mae'r ddogfen hon yn adrodd ar berfformiad y gwasanaeth rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019 h.y. blwyddyn gyllideb 2018 / 2019. Mae'r adroddiad yn nodi perfformiad gweithrediadau gorfodi ym meysydd parcio ac ar y stryd.
- 1.3 Gan weithio o dan y pwerau sy'n deillio o Ran 6 Deddf Rheoli Traffig 2004 mae'r newidiadau canlynol i weithrediadau parcio yng Nghyngor Abertawe wedi digwydd:

Gweithredir gorfodi rheoliadau parcio gan Swyddogion Gorfodi Sifil (SGS) sy'n cyflwyno'r hysbysiad naill ai ar y cerbyd neu i'r person y credir y mai nhw oedd y gyrrwr adeg y tramgwydd. Fodd bynnag, pan fydd ymddygiad y gyrrwr tuag at y SGS yn atal y swyddog rhag ei gyflwyno yn y modd hwn, neu pan fydd y gyrrwr yn gyrru i ffwrdd cyn i'r swyddog gael cyfle i gyflwyno'r hysbysiad, bydd yr hysbysiad yn cael ei gyflwyno drwy'r post. Gall tramgwyddau gael eu cofnodi gan ein cerbyd camera teledu cylch cyfyng, caiff y tramgwyddau eu hadolygu wedyn gan SGS cymwysedig a bydd yr hysbysiadau cosb yn cael eu hanfon drwy'r post at geidwad cofrestredig y cerbyd.

Mae Taliadau Cosb yn amrywio yn dibynnu ar y tramgwydd; mae tramgwyddau lefel uwch yn golygu cosb o £70 neu £35 os yw'n cael ei dalu o fewn 14 diwrnod, tra bod tramgwyddau lefel is yn golygu cosb o £50 neu £25 os yw'n cael ei dalu o fewn 14 diwrnod. Pennir lefel y cod tramgwydd gan ddeddfwriaeth ac nid gan y Cyngor. Er enghraifft, byddai parcio mewn lleoliad sydd wedi'i wahardd, megis ar linell felen, yn cael ei ystyried yn dramgwydd lefel uwch a byddai aros yn hirach na chaniateir mewn lleoliad lle caniateir parcio megis cilfach amser aros cyfyngedig, yn cael ei ystyried yn dramgwydd lefel is. Cewch isod restr lawn o dramgwyddau fesul categori yn yr adroddiad ar orfodi oddi ar y stryd (meysydd parcio) a gorfodi ar y stryd.

Rhaid ymateb i sylwadau ffurfiol o fewn 56 diwrnod, er nod y Cyngor fydd ymateb o fewn 14 diwrnod.

Er bod gan y Cyngor bolisi cadarn a thryloyw ar ganslo hysbysiadau tâl cosb yn dilyn cyflwyno heriau neu sylwadau, y Tribiwnlys Cosb Traffig yw'r dyfarnwr terfynol ar gyfer pob apêl ac mae'r Cyngor yn cydweithredu'n llawn â'r Tribiwnlys. Mae'r Tribiwnlys yn wasanaeth dyfarnu annibynnol rhad ac am ddim y gall modurwyr ei ddefnyddio ar ôl y cam sylwadau ffurfiol o fewn y broses apelio.

Ceidwad cofrestredig y cerbyd sy'n gyfrifol am dalu hysbysiadau tâl cosb. Cyfeirir hysbysiadau sydd heb eu talu at y Ganolfan Gorfodi Traffig yn Llys Sirol Northampton sy'n dyroddi gorchmynion adennill dyledion. Trosglwyddir y gorchmynion hyn i Asiantaeth Gorfodi sydd â'r grym i adennill y ddyled ar ran y Cyngor.

- 1.4 Ar wahân i ofynion deddfwriaethol Deddf Rheoli Traffig 2004 rhaid i'r gwasanaeth sicrhau cydymffurfio'n llawn â'r Offerynnau/Rheoliadau Statudol canlynol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ac sydd ar gael yn <http://www.legislation.gov.uk>

Rheoliadau Gorchymyn Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2013.

Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Sylwadau ac Apelau) (Cymru) 2013.

Gorchymyn Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Dyfeisiadau a Gymeradwyir) (Cymru) 2013.

Gorchymyn Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Canllawiau ar Lefelau Taliadau) (Cymru) 2013.

Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Sylwadau ac Apelau) Cerbydau a Symudwyd Ymaith (Cymru) 2013.

Rheoliadau Swyddogion Gorfodi Sifil (Gwisgo Lifrai) (Cymru) 2008.

Rheoliadau Symud Ymaith a Gwaredu Cerbydau (Diwygio) (Cymru) 2008.

- 1.5 Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod ein Hasiantau Gorfodi, sy'n cael eu penodi i adennill hysbysiadau tâl cosb, yn cydymffurfio â gofynion: Rheoliadau Cymryd Rheolaeth o Nwyddau 2013: a

Rheoliadau Cymryd Rheolaeth o Nwyddau (Ffioedd) 2014

Mae'r rheoliadau hyn ar gael yn <http://www.legislation.gov.uk>

- 1.6 Cyn y gall unrhyw orfodi ddiwydd rhaid cyflwyno Gorchymyn Rheoleiddio Traffig a fydd yn nodi'n glir maint y cyfyngiad sydd ar waith. Gellir dod o hyd i'r Gorchmynion trwy ddilyn y ddolen ganlynol ar wefan y Tribiwnlys Cosb Traffig: <http://tro.parking-adjudication.gov.uk>

- 1.7 Mae'r canllawiau statudol i awdurdodau lleol ar orfodi sifil tramgwyddau parcio a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol gyhoeddi adroddiad blynyddol. Mae'r adroddiad hwn yn rhan bwysig o atebolrwydd a bydd y tryloywder a geir gan adroddiadau rheolaidd a chyson yn gymorth i Aelodau etholedig ac i'r cyhoedd ddeall y prosesau a fabwysiadwyd i reoli parcio trwy hyd a lled ardal Abertawe.

- 1.8 Mae tudalennau canlynol yr adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth ynghylch gweithgareddau ar y stryd ac oddi ar y stryd yn ystod y cyfnod adrodd ac yn cwmpasu hysbysiadau tâl cosb a gyflwynwyd, gohebiaeth y deliwyd ag ef gan gynnwys apelau a chwynion, lefelau staffio a manylion gwariant ac incwm. Cewch fwy o wybodaeth ynghylch Gwasanaethau Parcio ar ein gwefan yn <http://www.abertawe.gov.uk/parcio> sy'n cynnwys dolen i Adroddiadau Blynyddol blaenorol.

## 2. Parcio Oddi Ar y Stryd

- 2.1 Mae gan Gyngor Abertawe gyfanswm o 53 o feysydd parcio wedi eu rhestru yng 'Ngorchymyn Cydgrynhoi Cyngor Abertawe (Lleoedd Parcio Oddi ar y Stryd) (Talu ac Arddangos) 2008'.
- 2.2 Mae tri maes parcio aml-lawr Canol y Ddinas yn rhai talu wrth ymadael tra bod pob maes parcio arall yn rhai talu ac arddangos. Yn ogystal, mae tri maes parcio a theithio wedi'u lleoli ar gyrion y ddinas, sy'n gweithredu fel meysydd parcio talu ar droed.
- 2.3 Yn ogystal â'i rôl gorfodi, mae'r adran Gwasanaethau Parcio yn gyfrifol am weinyddu a chynnal a chadw pob maes parcio yn effeithiol.
- 2.4 Mae 86 gorsaf talu wedi'u lleoli ledled y ddinas, ac mae'r rhain yn cael eu cynnal a chadw gan staff sydd hefyd yn gyfrifol am gasglu a chysoni'r arian o'r peiriannau hyn. Yn ystod blwyddyn gyllideb 2018/19 roedd hyn yn gyfanswm o £5,123,309.90 gan gynnwys tocynnau tymor, parcio staff ac incwm amrywiol arall.
- 2.5 Mae'r tâl a godir am feysydd parcio yn amrywio, gyda meysydd parcio wedi'u dynodi'n 'arhosiad hir', 'arhosiad byr', 'blaendraeth', 'maestrefol' a 'chanol y ddinas'. Yn ogystal, mae 13 maes parcio ar hyn o bryd yn rhad ac am ddim. Mae 2 faes parcio wedi'u dynodi ar gyfer deiliaid tocynnau tymor yn unig ac mae un sydd at ddefnydd deiliaid bathodynnau glas yn unig.
- 2.6 Yn ystod y cyfnod adrodd cyflwynwyd cyfanswm o 14,989 o Hysbysiadau Tâl Cosb (fel y dangosir yn Nhabl 1) mewn perthynas â thrangwyddau a gofnodwyd yn ein meysydd parcio. Mae Tabl 1 isod yn nodi'r gwahanol dramgwyddau wedi'u rhannu'n ôl y tramgwyddau cyfradd uwch (£70) a'r tramgwyddau cyfradd is (£50).

**Tabl 1**

<b>Cod y Tramgwydd</b>	<b>Disgrifiad o'r Tramgwydd</b>	<b>Nifer y HTC (Hysbysiadau Tâl Cosb) a gyflwynwyd</b>
<b>Oddi ar y Stryd – Cyfradd Uwch</b>		
70	Parcio mewn ardal lwytho	52

74	Defnyddio cerbyd mewn lle parcio mewn cysylltiad â gwerthu nwyddau	1
81	Parcio mewn ardal gyfyngedig	76
85	Parcio mewn man trwydded	926
87	Parcio person anabl	620
89	Mae'r cerbyd sydd wedi ei barcio yn drymach a/neu'n uwch a/neu'n hirach na'r hyn a ganiateir yn yr ardal yma	1
91	Parcio mewn maes parcio neu ardal na ddynodwyd ar gyfer y dosbarth hwnnw o gerbyd	10
92	Rhwyrstr	2
	Cyfanswm	<b>1,688</b>
Cyfradd Is		
80	Parcio'n hirach nag a ganiateir	171
82	Parcio ar ôl i'r amser y talwyd amdano ddod i ben	2,871
83	Parcio mewn maes parcio heb arddangos tocyn talu ac arddangos, taleb neu gloc parcio dilys yn glir	8,612
84	Parcio a thalu swm ychwanegol i ymestyn yr amser parcio tu hwnt i'r amser a brynwyd yn wreiddiol	10
86	Heb barcio'n gywir oddi fewn i farciau'r gilfach neu'r lle parcio	1,635
W83	Parcio mewn maes parcio heb arddangos tocyn talu ac arddangos, taleb neu gloc parcio dilys yn glir	1
	Cyfanswm	<b>13,301</b>
	Prif Gyfanswm	<b>14,989</b>

### 3. Parcio Ar y Stryd

- 3.1 Mae amrywiaeth y gorchmynion parcio mewn grym sy'n ymwneud â chyfyngiadau parcio ledled Dinas Abertawe yn gosod her i'r staff gorfodi oherwydd maint yr ardal ddaearyddol.
- 3.2 Mae gweithrediadau parcio yn ardal Dinas Abertawe yn cynnwys gorfodi parthau parcio a reolir megis sydd yng nghanol y ddinas, St Thomas, a'r Parc Menter (Parth Parcio a Reolir Sandfields oedd ar waith yn ystod 2016), nifer o gynlluniau parcio trwyddedau preswylwyr, cilfachau amser cyfyngedig, cilfachau llwytho, cilfachau anabl, cilfachau talu ac arddangos a nifer o gyfyngiadau llinellau melyn sengl a dwbl.
- 3.3 Ym mis Ionawr 2015 cyflwynodd Cyngor Abertawe Gerbyd Gorfodi Camera Teledu Cylch Cyfyng i helpu lle nad yw dulliau traddodiadol o orfodi ar droed wedi bod yn effeithiol mewn bodloni ein nod o leihau tramgwyddau parcio er mwyn gwella diogelwch y ffyrdd a lleihau tagfeydd. Cyn cyflwyno'r cerbyd, cynhaliwyd ymgyrch gyhoeddusrwydd eang a oedd yn cynnwys dosbarthu taflenni i bob disgybl ysgol.
- 3.4 Yn ystod y cyfnod adrodd cyflwynwyd cyfanswm o 59,516 o Hysbysiadau Tâl Cosb ar y stryd, a oedd yn cynnwys 12,901 a gyflwynwyd gan deledu cylch cyfyng (fel y dangosir yn Nhabl 4). Mae Tabl 2 yn nodi'r gwahanol dramgwyddau wedi'u rhannu'n ôl y tramgwyddau cyfradd uwch (£70) a'r tramgwyddau cyfradd is (£50).

**Tabl 2**

<b>Cod y Tramgwydd</b>	<b>Disgrifiad o'r Tramgwydd</b>	<b>Nifer y HTC a gyflwynwyd</b>
<b>Ar y Stryd – Cyfradd Uwch</b>		
01	Parcio mewn stryd gyfyngedig	6,237
02	Llwytho mewn stryd gyfyngedig	3,035
12	Parcio mewn lle parcio i drigolion	6,178
14	Parcio mewn lle gwefru cerbyd trydan	1
16	Parcio mewn lle sydd angen trwydded	675
20	Parcio mewn bwlch llwytho	1
23	Parcio mewn lle/ardal parcio na ddynodwyd ar gyfer y dosbarth hwnnw o gerbyd	39
25	Parcio mewn man llwytho	3,911

26	Parcio mwy na 50cm o ymyl y ffordd ac o fewn Ardal Gorfodi Arbennig (AGA)	118
27	Parcio ger palmant wedi'i ostwng o fewn AGA	545
40	Parcio mewn lle parcio wedi'i ddynodi ar gyfer person anabl	1,599
42	Parcio mewn lle parcio wedi'i ddynodi ar gyfer cerbydau'r heddlu	1
45	Parcio ar safle tacsis	429
46	Parcio ar glirffordd	34
47	Stopio ar safle/arhosfan bws cyfyngedig	169
48	Stopio mewn ardal gyfyngedig y tu allan i ysgol	61
49	Parcio'n gyfan gwbl neu'n rhannol ar lwybr beicio	5
99	Stopio ar groesfan i gerddwyr	158
W01	Parcio mewn stryd gyfyngedig	1
W12	Parcio mewn lle parcio i drigolion	1
	<b>Cyfanswm</b>	<b>23,198</b>
<b>Ar y Stryd – Cyfradd Is</b>		
05	Parcio ar ôl i'r amser y talwyd amdano ddod i ben	422
06	Parcio heb arddangos tocyn talu ac arddangos neu daleb ddilys yn glir	1,647
19	Parcio mewn lle/parth parcio i drigolion	9
22	Ail barcio yn yr un lle/parth parcio oddi fewn awr ar ôl gadael	245
24	Heb barcio'n gywir	246
30	Parcio yn hirach nag a ganiateir	5,738
	<b>Cyfanswm</b>	<b>8,307</b>
	<b>Prif Gyfanswm</b>	<b>31,505</b>

3.5 Hysbysiadau Tâl Cosb a gyflwynwyd drwy'r post lle nad oedd modd ei gyflwyno i'r cerbyd adeg y tramgwydd h.y. cerbyd yn gyrru i ffwrdd

**Tabl 3**

<b>Cod y Tramgwydd</b>	<b>Disgrifiad o'r Tramgwydd</b>	<b>Nifer y HTC a gyflwynwyd</b>
<b>Cyfradd Uwch – Oddi Ar y Stryd</b>		
<b>85</b>	Parcio mewn cilfach trwydded	1
<b>Cyfradd Is – Oddi Ar y Stryd</b>		
<b>82</b>	Parcio ar ôl i'r amser y talwyd amdano ddod i ben	2
83	Parcio mewn maes parcio heb arddangos tocyn talu ac arddangos, taleb neu gloc parcio dilys yn glir	1
86	Heb barcio'n gywir oddi fewn i farciau'r gilfach neu'r lle parcio	1
<b>Cyfradd Uwch – Ar y Stryd</b>		
<b>01</b>	Parcio mewn stryd gyfyngedig	4
<b>02</b>	Llwytho mewn stryd gyfyngedig	25
<b>12</b>	Parcio mewn lle parcio i drigolion	7
<b>16</b>	Parcio mewn lle sydd angen trwydded	1
<b>25</b>	Parcio mewn man llwytho	12
<b>26</b>	Parcio mwy na 50cm o ymyl y ffordd ac o fewn Ardal Gorfodi Arbennig (AGA)	2
<b>27</b>	Parcio ger palmant wedi'i ostwng o fewn AGA	6
<b>40</b>	Parcio mewn lle parcio wedi'i ddynodi ar gyfer person anabl	6
<b>45</b>	Parcio ar safle tacsis	3
<b>47</b>	Stopio ar safle/arhosfan bws cyfyngedig	17

48	Stopio mewn ardal gyfyngedig y tu allan i ysgol	8
99	Stopio ar groesfan i gerddwyr	15
<b>Cyfradd Is – Ar y Stryd</b>		
06	Parcio heb arddangos tocyn talu ac arddangos neu daleb ddilys yn glir	2
22	Ail barcio yn yr un lle/parth parcio oddi fewn awr ar ôl gadael	2
24	Heb barcio'n gywir oddi fewn i farciau'r gilfach neu'r lle parcio	2
30	Parcio yn hirach nag a ganiateir	4
	<b>Cyfanswm yr Hysbysiadau Tâl Cosb a gyflwynwyd drwy'r post</b>	<b>121</b>

3.6 Hysbysiadau Tâl Cosb a gyflwynwyd gan y Car Camerâu Teledu Cylch Cyfyng (TCC).

**Tabl 4**

<b>Cod y Tramgwydd</b>	<b>Disgrifiad o'r Tramgwydd</b>	<b>Nifer y HTC a gyflwynwyd</b>
02J	Llwytho mewn stryd gyfyngedig	6,815
45J	Parcio ar safle tacsis	2,441
46J	Parcio ar glirffordd	114
47J	Stopio ar safle/arhosfan bws cyfyngedig	2,152
48J	Stopio mewn ardal gyfyngedig y tu allan i ysgol	444
99J	Stopio ar groesfan i gerddwyr	935
	<b>Cyfanswm yr HTC a gyflwynwyd gan TCC</b>	<b>12,901</b>



## 4. Crynodeb o'r holl Hysbysiadau Tâl Cosb a gyflwynwyd

Tabl 5

	Oddi Ar y Stryd Cyfradd Is	Oddi Ar y Stryd Cyfradd Uwch	Ar y Stryd Cyfradd Is	Ar y Stryd Cyfradd Uwch	Cyfradd Is Drwy'r Post	Cyfradd Uwch Drwy'r Post	Teledu Cylch Cyfyng	Cyfanswm
2018/2019	13,301	1,688	8,307	23,198	14	107	12,901	59,516

Uwch = Tramgwyddau £70

Is = Tramgwyddau £50

## 5. Staffio

5.1 Bu'r staffio yn ystod 2018/19 fel a ganlyn: -

- 1 Rheolwr Meysydd Parcio
- 1 Rheolwr Gorfodi Parcio Sifil
- 1 Goruchwylydd Gorfodi Sifil
- 1 Goruchwylydd Meysydd Parcio
- 1 Goruchwylydd Swyddfa Gefn
- 3 Uwch Swyddog Gorfodi Sifil
- 1 Uwch Swyddog Meysydd Parcio
- 3 Ariannydd
- 21 Swyddog Gorfodi Sifil (SGS)
- 7 Staff Prosesu/Swyddfa Gefn HTC (Hysbysiadau Tâl Cosb) (FTE)
- 1 Gwasanaethydd Meysydd Parcio
- 7 Gwasanaethydd Parcio a Theithio

## 6. Gohebiaeth

- 6.1 Hawl pob gyrrwr neu berchennog yw herio dilysrwydd Hysbysiad Tâl Cosb neu gyflwyno rhesymau lliniaru sy'n nodi pam na ddylid talu'r Hysbysiad Tâl Cosb. Mae'r broses herio/apelio wedi'i nodi mewn deddfwriaeth ac mae gwybodaeth sy'n ymwneud â'r broses hon wedi'i chynnwys ar wefan y Cyngor – <http://www.abertawe.gov.uk/parcio>. Mae'r wefan yn cynnwys manylion am y seiliau statudol dros ganslo hysbysiad ac yn nodi'r lliniaru a'r dystiolaeth sydd eu hangen er mwyn caniatáu pob cyfle i'r apelydd gyflwyno'r wybodaeth angenrheidiol.
- 6.2 Mae'n ofyniad cyfreithiol ar y Cyngor ystyried ac ymateb i ohebiaeth yn unrhyw gam o'r broses ac mae'r ddeddfwriaeth yn gofyn am ddanfon ymatebion yn amserol. Er mai'r gofyniad cyfreithiol yw darparu ymateb o fewn 56 diwrnod, nod y Cyngor yw ymateb i bob her o fewn 14 diwrnod. Yn anffodus, oherwydd nifer uchel yr apelau a dderbynnir ar brydiau gall gymryd yn hirach na 14 diwrnod i ymateb.
- 6.3 Danfonwyd 62,967 darn o ohebiaeth yn ystod y cyfnod adrodd.

- 6.4 Bu'r Heriau a'r Sylwadau (apelau) a wnaed o fewn y broses apelio 56 diwrnod arferol fel a ganlyn (dylid nodi bod y crynodeb isod yn dangos canlyniad achosion unigol).

### Ystadegau Apelio

Tabl 6

	Derbyniwyd	Gwrthodwyd
<b>Heriau Anffurfiol</b> (Cyn cam apelio Hysbysiad i'r Perchennog)	4,248	5,391
<b>Sylwadau Ffurfiol</b> (Ôl Cam Hysbysiad i'r Perchennog)	2,993	2,129

- 6.5 Y tu hwnt i'r broses apelio arferol derbyniwyd 6,377 llythyr (Mae Atodiad 2 yn cynnwys dadansoddiad o'r llythyrau hyn) ar ôl i'r llythyr Tystysgrif Tâl gael ei ddanfôn ac er nad oes nad oes rhwymedigaeth ar y Cyngor i ystyried yr amgylchiadau lliniaru penderfynwyd y gellid canslo 7,377 o achosion ychwanegol yn y cam hwn (Mae Atodiad 1 yn cynnwys dadansoddiad o'r wybodaeth hon).
- 6.6 Os gwrthodir Sylwad Ffurfiol gall y modurwr wedyn symud ei achos ymlaen i'r Tribiwnlys Cosb Traffig sy'n wasanaeth dyfarnu annibynnol rhad ac am ddim. Yn ystod y cyfnod adrodd cyfeiriwyd 150 o ffeiliau achos at y Tribiwnlys. Mae paratoi pob ffeil tystiolaeth yn cymryd llawer iawn o amser gan fod angen adolygu a gwirio'r holl ddogfennau sy'n gysylltiedig â'r achos. Rhaid paratoi cyflwyniad llawn yn nodi'r dadleuon sy'n cefnogi achos y Cyngor. Derbyniwyd 45 achos gan y dyfarnwr a gwrthodwyd 36 gyda 66 heb eu herio gan y Cyngor ar ôl adolygu'r amgylchiadau ac/neu ystyried unrhyw dystiolaeth lliniaru ychwanegol a ddarparwyd, a chafodd 3 achos orchymyn cydsynio.
- 6.7 Rhoddwyd y gorau i 7,377 o achosion y 59,516 Hysbysuadau Tâl Cosb a gyflwynwyd (gweler Tabl 5) naill ai oherwydd derbyn apêl neu am nad oedd modd bwrw ymlaen â'r achos. Mae hyn yn cynrychioli 12.39% ac mae o fewn y 20% y cynghorwyd i ni yn wreiddiol na fyddai modd eu hadennill. Er enghraifft, mae'n bosib na fydd bwrw ymlaen ag achos oherwydd nad oedd modd canfod perchennog y cerbyd neu oherwydd bod yr Asiantaeth Gorfodi wedi dychwelyd yr achos atom am nad oeddent yn gallu sicrhau taliad.

## 7. Adroddiad Ariannol

- 7.1 Mae'r gyllideb Gwasanaethau Parcio wedi'i rhannu dros 3 maes cyfrif ac mae'r incwm a'r gwariant ar gyfer 2018/19 fel a ganlyn: -

### Gwariant Gwirioneddol Gwasanaethau Parcio 2018/19

Tabl 7

	<b>Meysydd Parcio</b>	<b>Gorfodi Parcio Sifil (GPS)</b>	<b>Parcio a Theithio</b>
	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>
<b>Gweithwyr cyflogedig</b>	<b>405,297</b>	<b>1,027,753</b>	<b>80,159</b>
<b>Adeiladau</b>	<b>468,950</b>	<b>23,779</b>	<b>99,373</b>
<b>Trafnidiaeth</b>	<b>56,451</b>	<b>9,861</b>	<b>0</b>
<b>Cyflenwadau a Gwasanaethau</b>	<b>229,615</b>	<b>277,216</b>	<b>16,947</b>
<b>Taliadau Trydydd Parti</b>	<b>62,923</b>	<b>20,972</b>	<b>432,569</b>
<b>Debydau Mewnol</b>	<b>3,195</b>	<b>0</b>	<b>0</b>
<b>Cyfanswm Gwariant</b>	<b>1,226,429</b>	<b>1,359,580</b>	<b>629,049</b>
<b>Cyfanswm Incwm</b>	<b>4,633,951</b>	<b>1,947,351</b>	<b>360,583</b>
<b>Cyfanswm Gwarged (Diffyg)</b>	<b>3,407,521</b>	<b>587,770</b>	<b>(268,465)</b>

- 7.2 Derbyniodd cyfrif Gorfodi Parcio Sifil incwm oddi wrth daliadau Talu ac Arddangos ar y stryd a Hysbysiadau Tâl Cosb. Mae Tabl 8 dros y tudalen yn nodi'r incwm o'r ffynonellau hyn. Mae'r incwm sy'n deillio o daliadau ar y stryd ac o orfodi ar y stryd ac oddi ar y stryd yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau a osodir gan Adran 55 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, fel y'i diwygiwyd o fis Hydref 2004 gan adran 95 Deddf Rheoli Traffig 2004 a Rheoliad 26 Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2013.
- 7.3 Mae is-adran 2 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 Road yn datgan;
- (2) Ar ddiwedd pob blwyddyn gyllideb bydd unrhyw ddiffyg yn y cyfrif yn cael ei wneud yn iawn allan o'r [gronfa gyffredinol] [neu, yng Nghymru, cronfa'r Cyngor], ac (yn ddarostyngedig i is-adran (3) isod) bydd unrhyw warged yn cael ei gymhwyso at yr holl ddibenion, neu unrhyw un ohonynt, sydd wedi'u nodi yn is-adran (4) isod, a chyn belled ag nad yw'n cael ei gymhwyso felly, caiff ei adfeddu i gyflawni prosiect penodol sydd o fewn y dibenion hynny a'i gario ymlaen nes caiff ei gymhwyso i'w gyflawni.*
- 7.4 Mae'r rhan hon o'r ddeddfwriaeth yn clustnodi unrhyw warged at ddibenion penodol gan gynnwys darparu neu gynnal a chadw parcio oddi ar y stryd, gwelliannau i'r briffordd a materion amgylcheddol.

Tabl 8

<b>Ffynhonnell Incwm</b>	<b>Incwm</b>
<b>Hysbysiadau Tâl Cosb: Ar y Stryd ac Oddi Ar y Stryd</b>	<b>1,876,803.08</b>
<b>Talu ac Arddangos Ar y Stryd</b>	<b>69,698.80</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,946,771.88</b>

- 7.5 Mae cyfanswm y gwariant sy'n gysylltiedig â'r gweithrediadau hyn, sy'n gwrthbwysu incwm oddi wrth daliadau ar y stryd a thaliadau hysbysiadau tâl cosb, yn £1,359,580 (dyma'r Cyfanswm Gwariant GPS (Gorfodi Parcio Sifil) a ddangosir yn Nhabl 7).
- 7.6 Adroddwyd gwaged o £587,770 (fel y dangosir yn Nhabl 7, Cyfanswm Gwaged GPS).
- 7.7 Fel y nodwyd ym mharagraff 7.3 rhaid defnyddio unrhyw warged at ddibenion penodol. Yn ystod y cyfnod adrodd, cofnodwyd gan y tri chynllun Parcio a Theithio a weithredir gan y Cyngor colled o £268,465 (fel y dangosir yn Nhabl 7 Cyfanswm Gwaged (Diffyg) Parcio a Theithio).
- 7.8 Mae meysydd Parcio a Theithio yn cynnig opsiwn pwysig i fodurwyr sy'n ymweld â'r ddinas naill ai'n rheolaidd neu'n untro. Mae'r gostyngiad mewn llif traffig i Ganol y Ddinas a ddaw yn sgil hynny nid yn unig yn lleihau tagfeydd ond mae hefyd yn helpu i leihau lefelau llygredd, sy'n anodd eu rheoli ar y ffyrdd prifwythiennol i mewn ac allan o Ganol y Ddinas. Mae gwasanaethau Parcio a Theithio hefyd yn cefnogi'r gymuned fusnes drwy ddarparu parcio fforddiadwy ar gyfer gweithwyr a siopwyr canol y ddinas. Mae angen felly sicrhau parhau i weithredu'r gwasanaethau gwerthfawr hyn.
- 7.9 Felly, mae'r gwaged ar gyllideb Gorfodi Parcio Sifil o £587,770 (fel y dangosir yn Nhabl 7, Cyfanswm Gwaged ar gyfer GPS) wedi'i ddefnyddio i gefnogi darparu gwasanaeth Parcio a Theithio'r Ddinas.

### Atodiad 1

Ystadegau am yr Ohebiaeth a Ddanfonwyd, fesul Math (yr Hysbysiad)	Dinas a Sir Abertawe
Yn Flynyddol Rhwng 01/04/2018 a 31/03/2019	
Math	Nifer fesul Math
Lonydd Bysiau – Llys Sirol	1
Lonydd Bysiau – HTC HIP	4
Teledu Cylch Cyfyng (TCC) - Derbyn – Wedi'i Hurio	263
TCC - Derbyn – Wedi'i Hurio – Dim Dogfennau	137
TCC – Tystysgrif Tâl	2,874
TCC - HTC	13,722
TCC – Ôl Llys Sirol – Gwrthod Cyffredinol	124
TCC – Gwrthodiad	34
TCC - Gwrthodiad – Cynigiwyd Disgownt	1,067
TCC - Gwrthodiad – Angen ei Dalu'n Llawn	27
TCC – Hysbysiad Rhybudd	2
GPS – Derbyn y Wybodaeth a Ddarparwyd – Ystyriaethau Iechyd Meddwl	2
GPS – Llythyr Cydnabyddiaeth	1,003
GPS – Llythyr Gwag	84
GPS – Pecyn Achos	138
GPS – GWALL CIVICA – CYFLWYNWYD HIP – DERBYNIWYD TALIAD LLAWN	1
GPS – GWALL CIVICA ERR - CYFLWYNWYD HIP - GORDALIAD – AD-DALWYD	1
GPS – Barnwr Rhanbarth – Llythyr Gwrthod	7
GPS – Her Bellach – Dim Camau Pellach	189
GPS – Daeth i Mewn – Apêl Cyn HIP	9
GPS – Daeth i Mewn – Tystiolaeth Gynorthwyol	62
GPS – Mewn Pryd – Llythyr 14 Diwrnod	349
GPS – Datganiad Tyst Hwyr	1
GPS – Dim Camau Pellach (Cyn-Camau)	80
GPS - Danfonwyd - Cwyn	2
GPS - Danfonwyd – Ymateb i Gwyn	10
GPS - Danfonwyd – Ymateb y Cyngor i Ddyfarnwr/Apelydd	19
GPS - Danfonwyd – Ymateb E-bost	82
GPS - Danfonwyd – Cynllun Talu Wedi'i Gytuno	220

GPS - Danfonwyd – Ymateb i Gwyn	1
GPS - Danfonwyd – Cyflwyniadau i'r TCT	99
GPS - Danfonwyd Dogfen	171
GPS - Danfonwyd E-bost	2,725
GPS - Danfonwyd Llythyr Gwag Cyffredinol	1
GPS – Danfonwyd Ymateb Rheolwr	8
GPS - Danfonwyd Llythyr Tandaliad	15
GPS – Llythyr Cynllun Talu	3
GPS – Derbyniwyd Taliad	1
GPS – Ôl Llys Sirol – Derbyn Cyffredinol	129
GPS - Ôl Llys Sirol – Gwrthod Cyffredinol	369
GPS - Ôl HIP (Hysbysiad i'r Perchennog) - Derbyn – Unrhyw Benderfyniad Arall	1,094
GPS - Ôl HIP - Derbyn – Gwall SGS (Swyddog Gorfodi Sifil)	98
GPS - Ôl HIP - Derbyn – SGS Heb ei Atal rhag Cyflwyno	2
GPS - Ôl HIP - Derbyn – Ni Ddigwyddodd y Tramgwydd	16
GPS - Ôl HIP - Derbyn – Gwall Wedi Digwydd	2
GPS – Ôl HIP - Derbyn – Cwmni Hurio	4
GPS - Ôl HIP - Derbyn – Gorchymyn Rheoleiddio Traffig (TRO) Annilyd	1
GPS - Ôl HIP - Derbyn – Nid y nhw oedd y Ceidwad – Dim Dogfennau	105
GPS - Ôl HIP - Derbyn - Nid y nhw oedd y Ceidwad – Gyda Dogfennau	57
GPS - Ôl HIP - Derbyn – Wedi'i Hurio	585
GPS - Ôl HIP - Derbyn – Wedi'i Hurio – Dim Dogfennau	625
GPS - Ôl HIP - Derbyn – Wedi Talu'n Llawn	1
GPS - Ôl HIP - Derbyn – Amhriodoldeb Gweithdrefnol	3
GPS – Ôl HIP - Gwrthod	523
GPS - Ôl HIP - Gwrthod – Cynigiwyd Disgownt	505
GPS – Ôl TCT – Rhaid Ei Dalu	20
GPS – Llythyr Cyn Cofrestru Dyled	1
GPS - Cyn HIP - Derbyn – Unrhyw Benderfyniad Arall	3,267
GPS - Cyn HIP - Derbyn – Tystiolaeth Bathodyn Glas Wedi'i Chyflwyno	86

GPS - Cyn HIP - Derbyn – Gwall SGS	136
GPS – Cyn HIP - Derbyn – Ni Ddigwyddodd y Tramgwydd	4
GPS - Cyn HIP - Derbyn - Tocyn Parcio a Theithio â'i Wyneb i Lawr Wedi'i Chyflwyno	545
GPS - Cyn HIP - Derbyn – Cwmni Hurio	2
GPS - Cyn HIP - Derbyn – Trwydded LC2 Wedi'i Chyflwyno	72
GPS - Cyn HIP - Derbyn – Talwyd yn Llawn	6
GPS - Cyn HIP - Derbyn - Problem Gydag Arwyddion Neu Linellau	3
GPS - Cyn HIP - Derbyn – Tystiolaeth Rotwnda Wedi'i Chyflwyno – Nid Neuadd y Dref	2
GPS - Cyn HIP - Derbyn – Deiliad Trwydded Staff – Ewyllys Da	35
GPS - Cyn HIP - Derbyn – Tocyn Talu ac Arddangos Dilys	89
GPS - Cyn HIP - Derbyn – Cymerwyd y Cerbyd Heb Ganiatâd	1
GPS - Cyn HIP - Cod 01 Llinell Felen Sengl - Gwrthod	1
GPS - Cyn HIP - Cod 12 - Gwrthod	1
GPS - Cyn HIP - Cod 27 - Gwrthod Apêl	1
GPS - Cyn HIP - Cod 83 - Gwrthod	1
GPS - Cyn HIP - Gwrthod	5,226
GPS - Cyn HIP - Gwrthod - Alamein Road	2
GPS - Cyn HIP - Gwrthod – Parth a Reolir	39
GPS - Cyn HIP - Gwrthod - Parthau Parcio a Reolir - St Thomas 2018	11
GPS - Cyn HIP - Gwrthod – Parth Parcio a Reolir Sandfields 2018	15
GPS - Cyn HIP - Gwrthod – Maes Parcio Salubrious Place	69
GPS - Cyn HIP - Gwrthod - Wind Street	22
GPS – Gyrrwyd y Cerbyd i Ffwrdd (Rheoliad 10)	3
GPS - TE3 TE9	6,864
GPS - CGT (Canolfan Gorfodi Traffig) - Derbyn – Allan o Amser (AOA)	2
GPS - CGT - Gwrthod - AAO	348
GPS - CGT - Gwrthod - AAO 14 Diwrnod	335
GPS – CGT i'r TCT – Caewyd neu Ganslwyd	3
GPS – CGT i'r TCT - Gorfodi	4

GPS - TCT – Llythyr i'r Apelydd	1
GPS – Tandaliad – Ôl Llys Sirol	1
Cymru – Tystysgrif Tâl	6,573
Cymru – Hysbysiad i'r Perchennog	11,381
Cymru - Llythyr Cyn Cofrestru Dyled	2
Cymru – Rheoliad 10 HTC HIP	136
<b>Cyfanswm yr Adroddiad:</b>	<b>62,967</b>

## Atodiad 2

<b>Ystadegau am yr Ohebiaeth a Ddaeth i Mewn, fesul Math (yr Hysbysiad)</b>	<b>Dinas a Sir Abertawe</b>
<b>Yn Flynyddol Rhwng 01/04/2018 a 31/03/2019</b>	
<b>Math</b>	<b>Nifer fesul Math</b>
GPS - Daeth i Mewn - SYMUD YMAITH – Nid Oedd Angen Ymateb	5
GPS - Daeth i Mewn - Canlyniad y TCT Wedi Dod i Law	29
GPS - Daeth i Mewn – Tystiolaeth Ychwanegol	25
GPS - Daeth i Mewn - Cwyn	92
GPS – Daeth i Mewn – Gohebiaeth Ddyblyg	131
GPS - Daeth i Mewn – E-bost	2,844
GPS - Daeth i Mewn – E-bost – Gohebiaeth Tystysgrif Tâl	281
GPS - Daeth i Mewn – E-bost - Gohebiaeth Tystysgrif Tâl (Lôn Bysiau)	1
GPS - Daeth i Mewn – E-bost - Gohebiaeth Tystysgrif Tâl (Teledu Cylch Cyfyng - TCC)	294
GPS - Daeth i Mewn – E-bost - Cyffredinol	410
GPS - Daeth i Mewn – E-bost – Ôl HIP	546
GPS - Daeth i Mewn – E-bost – Ôl HIP (TCC)	368
GPS - Daeth i Mewn – E-bost – Cyn HIP	1,573
GPS - Daeth i Mewn – Dogfen Gyffredinol	209



GPS - Daeth i Mewn – Dogfen Gyffredinol – Nid oedd Angen Ymateb	1,302
GPS - Daeth i Mewn – Ffurflen HS3 - Nid oedd Angen Ymateb	6
GPS - Daeth i Mewn - Datganiad Tyst Mewn Pryd gyda Dogfen Ddirymu	181
GPS - Daeth i Mewn - N244 A DDAETH I MEWN	39
GPS - Daeth i Mewn – Cais am Gynllun Talu	646
GPS - Daeth i Mewn – Ymholiad HTC	2
GPS - Daeth i Mewn - Ôl Llys Sirol	606
GPS - Daeth i Mewn – Gohebiaeth Ôl Llys Sirol	139
GPS - Daeth i Mewn – Ôl HIP (Hysbysiad i'r Perchennog)	783
GPS - Daeth i Mewn – Gohebiaeth Ôl HIP	935
GPS - Daeth i Mewn – Apêl Cyn HIP	604
GPS - Daeth i Mewn – Gohebiaeth Cyn HIP - Llythyr	1,897
GPS - Daeth i Mewn – Cais am Ad-daliad	1
GPS - Daeth i Mewn - Canlyniad CGT Wedi Dod i Law	418
GPS - Daeth i Mewn – Apêl TCT	201
GPS – Gohebiaeth a Ddaeth i Mewn – Tystysgrif Tâl - TCC	75
GPS - Gohebiaeth a Ddaeth i Mewn - Cyffredinol - TCC	107
GPS - Gohebiaeth a Ddaeth i Mewn – Ôl HIP – Lôn Bysiau	6
GPS - Gohebiaeth a Ddaeth i Mewn – Ôl HIP - TCC	1,537
GPS – Daeth i Mewn - Datganiad Achos Allan o Amser (AOA) Cyn y Beili	44
GPS – Daeth i Mewn - Datganiad Achos AOA Gyda'r Beili	410
GPS – Cyn HIP – Gofynnwyd am Dystiolaeth	12
GPS – Gohebiaeth Cyn HIP	161

Daeth i Mewn – Hysbysiad Lle i Anadlu	1
Daeth i Mewn - Trefniant Gwirfoddol Unigol - Cyffredinol	54
Daeth i Mewn - Ar-lein - Ôl HIP - Sylw	1,721
Daeth i Mewn - Ar-lein – Cyn HIP - Herio	7,173
Daeth i Mewn – Ateb VQ615 ddaeth i law oddi wrth y DVLA	7
Daeth i Mewn – Ateb VQ616 ddaeth i law oddi wrth y DVLA	6
Dogfen a Ddaeth i Mewn – Achos a Ddychwelwyd – Andrew James Enforcement	1,455
Dogfen a Ddaeth i Mewn – Achos a Ddychwelwyd - Excel	1,197
Dogfen a Ddaeth i Mewn – Achos a Ddychwelwyd - Swift	119
Danfonwyd – Ffurflen VQ616, y gwnaed cais amdani, gyda'r DVLA	7
<b>Cyfanswm yr Adroddiad:</b>	<b>28,660</b>